# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Medi 2024

Amser: 09.31 - 12.46

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14109

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mark Isherwood AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Tim Buckle, Archwilio Cymru<br>Spencer Birns, Maes Awyr Caerdydd<br>Wayne Harvey, Maes Awyr Caerdydd<br>Stephen Rowan, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn nhymor yr hydref.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

**2.1 Llythyr oddi wrth Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am Faes Awyr Caerdydd**

**2.2 Llythyr oddi wrth Gyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth ar ymchwiliad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i Faes Awyr Caerdydd**

**2.3 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol at y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ar Faes Awyr Caerdydd**

**2.4 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar adroddiad y Pwyllgor ar Gomisiynwyr Cymru**

**2.5 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar gaffael cerbydau trydan gan Lywodraeth Cymru**

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i wneud gwaith dilynol gyda Llywodraeth Cymru ynghylch ei phroses gaffael gyffredinol.

2.6 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol 2022-23

2.7 Llythyr oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor mewn perthynas â chefnogi Wcreiniaid yng Nghymru

2.8 Llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Fferyllol at Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y Cynllun Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol

2.9 Llythyr oddi wrth Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Llywodraeth Leol a Thai a Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar adroddiad Archwilio Cymru ar dai fforddiadwy yng Nghymru

## 3 Sesiwn dystiolaeth - Maes Awyr Caerdydd

3.1 Holodd yr Aelodau y tystion yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar Faes Awyr Caerdydd.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Trafod y dystiolaeth - Maes Awyr Caerdydd

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd i ysgrifennu at y Llywodraeth i ofyn am ragor o wybodaeth am y pwyntiau a godwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

## 6 Adroddiad Archwilio Cymru: Tai fforddiadwy

6.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

## 7 Archwilio Cymru - adroddiadau adolygu Llywodraeth Leol

6.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiadau.